

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad: 09.06.2023
Teitl: Comisiwn Gwarineb Jo Cox
Pwrpas yr adroddiad: Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Comisiwn Gwarineb Jo Cox

Cefndir

Ym mis Mai eleni bu i Gyngor Sir Ceredigion dderbyn gohebiaeth oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am Gomisiwn Gwarineb Jo Cox a lanswyd ym mis Chwefror 2023.

Nod y Comisiwn, fel y nodwyd yn y ddogfen sydd ynghlwm yw darganfod dulliau ymarferol o fynd i'r afael ag achosion o gam-drin cynrychiolwyr gwleidyddol etholedig a bygythiadau a thrais yn eu herbyn gan hyrwyddo dulliau i ymdrin ag achosion o gam-drin neu fygythiadau er mwyn sicrhau y bydd unrhyw un, beth bynnag y bo eu cefndir yn medru bod yn rhan o drafodaeth wleidyddol a'u thrin â pharch.

Bydd cam cyntaf eu gwaith yn ffocysu ar gasglu awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â'r materion yma. Bydd cyfnod o eirioli yn dilyn i ddechrau yn hwyr yn 2023 er mwyn galw am gamau i fabwysiadu'r argymhellion a godir o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori.

Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydlynu'r ymateb ar ran holl Gyngorau Cymru, tra'n annog holl gynghorau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gwaith.

Argymhellion: Ystyried a hoffai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd anfon ymateb fel rhan o'r ymarfer i gasglu gwybodaeth.

Atodiadau: Comisiwn Gwarineb Jo Cox

Dogfennau Cefndir:

Enw: Lowri Edwards

Teitl y Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: 11.05.2023